**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 2 Mai 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| W Evans | R Francis-Davies | A S Lewis |
| J A Raynor | M Sherwood | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, D H Hopkins, C E Lloyd a/ac M Thomas

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwr E J King.

## 193. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Mynegodd y Cynghorydd J A Raynor a E T King gysylltiad personol â chofnod 198 "".

## 194. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Gweddarlledu Cyfarfod

Dywedodd yr Aelod Llywyddol, fel rhan o'r gwaith cyfredol i fynd ati i weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor y Rhaglen Graffu, fod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion gweddarlledu.

## 195. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 196. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**197. Gwahardd y cyhoedd**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**198. Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Diwygiedig Dyfarnu contract ac awdurdodi rhaglen gyfalaf ar gyfer adeilad newydd ar gyfer Cyfleuster Addysg Mewn Lleoliad Heblaw'r Ysgol (EOTAS) yn y Cocyd**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Brys:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “naill ai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro'n ardystio y gallai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y weithdrefn galw i mewn wneud niwed i'r cyngor neu fudd y cyhoedd, gan gynnwys methu cydymffurfio â gofynion statudol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio awdurdod i ddyfarnu'r contract y gwaith sy'n weddill i Dendr Rhif 4, gan ddibynnu ar Lywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r cais am amrywiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth am y gost ddiwygiedig i adeiladu'r prosiect ar gyfer Addysg mewn Lleoliad Heblaw'r Ysgol (EOTAS) yn y Cocyd, gan ddibynnu ar Lywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r cais am amrywiad.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.07 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 2 Mai 2019 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | - |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 2 Mai 2019 |